

Canllawiau Statudol i Gyngorau Sir a
Chyngorau Bwrdeistref Sirol, Cyngorau
Cymuned a Thref ac Awdurdodau Parciau
Cenedlaethol yng Nghymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015

Gorffennaf 2015



ISBN argraffu 978 1 4734 3078 5
© Crown copyright 2015
WG24336

Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015: Canllawiau Statudol

Cynnwys

1. Cyflwyniad

Rhan 1 – Cyd-destun Polisi

2. Diben
3. Pwysigrwydd Caeau Chwarae

Rhan 2 – Y Rheoliadau

4. Cynnwys
5. Trefniadau Cychwyn a Phontio
6. Dehongliad
7. Cymhwyso ac Eithriadau
8. Trefniadau Hysbysu ac Ymgynghori
9. Asesu'r Effaith
10. Ystyried Sylwadau
11. Penderfyniad yn dilyn Ymgynghori
12. Cyfathrebu Electronig
13. Cymhwyso'r Canllawiau
14. Ymholiadau

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Adran 1 o Fesur Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) 2010 (“Mesur 2010” neu’r “Mesur”) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau, drwy reoliadau, ar gyfer ymgysylltiad cymunedau â phenderfyniadau Awdurdodau Lleol ynglŷn â chynigion i waredu tir sy’n cynnwys, neu sy’n ffurfio rhan, o gae chwarae.

1.2 Gwneir Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015 (“y Rheoliadau”) gan Weinidogion Cymru i arfer y pwerau hynny.

1.3 Mae’r ddogfen hon yn darparu canllawiau statudol sy’n rhaid i Awdurdodau Lleol eu hystyried wrth arfer swyddogaethau o dan y Rheoliadau. Nid yw’n cymryd lle’r Rheoliadau eu hunain, a dylid darllen y Rheoliadau ochr yn ochr â’r canllawiau yn y ddogfen hon.

1.4 Yn y Rheoliadau a’r ddogfen hon, mae cyfeiriad at ‘Awdurdod Lleol’ neu ‘Awdurdod’ yn gyfeiriad at Gyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol, Cyngor Cymuned a Thref ac Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru, oni bai bod y cyd-destun yn dynodi fel arall.

RHAN 1: Cyd-destun Polisi

2. Diben

2.1 Cyflwynwyd Mesur 2010 gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Dr Dai Lloyd a oedd yn Aelod Cynulliad ar y pryd. Diwygiwyd y Mesur yn sylweddol yn ystod y broses o'i graffu gan y Cynulliad Cenedlaethol, cyn ei basio yn 2010. Cafodd y Mesur Gydsyniad Brenhinol ar 15 Rhagfyr 2010.

2.2 Prif ddiben y Mesur a'r Rheoliadau cysylltiedig yw:

- i. Ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Lleol gyhoeddi gwybodaeth am effaith cynnig i gael gwared ar gae chwarae ar iechyd a lles y gymuned, drwy gyfeirio at nifer o strategaethau, cynlluniau ac asesiadau allweddol ar gyfer yr ardal lle mae'r cae chwarae wedi'i leoli; a
- ii. Chryfhau'r trefniadau ar gyfer ymgynghori â'r gymuned, defnyddwyr y cae chwarae a chyrrff cenedlaethol perthnasol cyn i Awdurdod Lleol ddod i benderfyniad terfynol i fwrw ymlaen â chynnig i waredu.

3. Pwysigrwydd Caeau Chwarae

3.1 Mae chwaraeon a hamdden yn cyfrannu at ansawdd ein bywydau. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiad chwaraeon a hamdden a'r amrediad eang o weithgareddau hamdden sy'n hybu gweithgarwch corfforol. Mae'r gweithgareddau hyn yn bwysig i iechyd a lles plant ac oedolion ac ar gyfer bywyd cymdeithasol ac economaidd Cymru.

3.2 Mae '**Dringo'n Uwch**'¹, a lanswyd gyntaf yn 2005, yn nodi strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer creu Cymru egniol, iach a chynhwysol lle defnyddir chwaraeon a gweithgarwch corfforol i wella ansawdd bywyd yn genedlaethol ac mewn cymunedau lleol. Gall gweithgarwch corfforol rheolaidd gael effaith fanteisiol wrth fynd i'r afael ag amrediad o broblemau iechyd, er enghraifft clefyd coronaidd y galon, strôc, diabetes Math 2 a gordewdra. Mae iddo effaith gadarnhaol wrth leihau achosion o anafiadau sy'n gysylltiedig â heneiddio a helpu pobl i fyw'n annibynnol. Hefyd, mae cysylltiad rhwng gweithgarwch corfforol a nifer o fanteision iechyd meddwl cadarnhaol a risg is o iselder clinigol, gwella hwyliu a lleihau gorbryder.

3.3 Yn 2006, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Gynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae**². Roedd hwn yn cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i chwarae a sut y mae'n cysylltu ac yn cyfrannu tuag at bolisiau a strategaethau eraill y DU a Llywodraeth Cymru.

¹ <http://wales.gov.uk/topics/cultureandsport/sportandactiver recreation/climbing/?skip=1&lang=cy>

² <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/playpolicy?skip=1&lang=cy>

3.4 Cyflwynodd **Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010** ddyletswydd newydd ar Awdurdodau Lleol yng Nghymru (h.y. Cyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref Sirol) mewn perthynas â chyfleoedd chwarae i blant. Mae adran 11 o'r Mesur yn galw ar Awdurdodau Lleol i asesu a oes digon o gyfleoedd chwarae yn eu hardal i sicrhau bod digon o gyfleoedd chwarae ar gael, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, ac i gyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfleoedd chwarae i blant yn eu hardal.

3.5 Mae canllawiau statudol³ a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru yn 2014 yn datgan y dylai Awdurdodau Lleol '*...gydnabod pwysigrwydd meysydd chwarae fel ardaloedd a ddefnyddir gan y gymuned i gynnal gweithgareddau chwaraeon a drefnir ac at ddibenion chwarae a hamdden anffurfiol*'.

3.6 Cadarnhaodd y **Rhaglen Lywodraethu**⁴, a lansiwyd yn 2012, ymrwymadau Llywodraeth Cymru i:

- i. Weithio gyda Chyngor Chwaraeon Cymru ac eraill i hyrwyddo gweithgarwch corfforol i bobl o bob oed; a
- ii. Sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu manteisio ar amrediad o gyfleoedd chwaraeon fel rhan o'r cwricwlwm ffurfiol, ar ôl ysgol ac yn y gymuned.

3.7 Mae caeau chwarae yn adnodd pwysig sy'n galluogi ac yn hybu gweithgarwch corfforol, ac o ganlyniad, maent yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at gynnal a gwella iechyd a lles ein dinasyddion.

3.8 Mae **Polisi Cynllunio Cymru**⁵ yn dynodi y dylid gwarchod pob cae chwarae, boed yn eiddo i sefydliadau cyhoeddus, preifat neu wirfoddol, rhag eu datblygu ac eithrio:

- Lle gwelir mai'r ffordd orau o gynnal a gwella cyfleusterau yw drwy ailddatblygu rhan fach o'r safle;
- Lle bydd darpariaeth amgen yn dod ar gael a fydd yr un mor fuddiol i'r gymuned; neu
- Lle ceir gormodedd o ddarpariaeth o'r fath yn yr ardal.

3.9 Mae Mesur a Rheoliadau 2010 yn sicrhau bod unrhyw gynnig i gael gwared ar gae chwarae sy'n eiddo i Awdurdod Lleol yn ddarostyngedig i asesiad effaith gwaredu ar iechyd a lles y gymuned leol. Bydd y cynnig hefyd yn destun ymgynghori ystyrlon â'r gymuned, defnyddwyr caeau chwarae a chyrff cenedlaethol perthnasol cyn y gwneir penderfyniad terfynol.

³ 'Cymru: Gwlad sy'n Creu Cyfle i Chwarae – Canllawiau Statudol i Awdurdodau Lleol ar asesu cyfleoedd i blant chwarae yn eu hardaloedd a sicrhau bod ganddynt y cyfleoedd hynny (2014)' [Llywodraeth Cymru | Chwarae a hamdden](http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/play/?skip=1&lang=cy)

<http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/play/?skip=1&lang=cy>

⁴ <http://wales.gov.uk/about/programmeformgov/?skip=1&lang=cy>

⁵ <http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy>

RHAN 2: Y Rheoliadau

4. Cynnwys

4.1 Mae 9 rhan i'r Rheoliadau, yn cynnwys:

- Dehongliad
- Cymhwyso
- Eithriadau
- Trefniadau hysbysu ac ymgynghori
- Asesu'r effaith
- Ystyried sylwadau
- Penderfyniad
- Cyfathrebu Electronig
- Canllawiau

5. Trefniadau Cychwyn a Phontio

5.1 Daw'r Rheoliadau i rym ar 1 Hydref 2015.

5.2 Mae Rheoliad 4(1)(e) yn nodi nad yw'r rheoliadau'n berthnasol i gynnig i gael gwared ar gae chwarae os yw gwarediad ar y gweill.

5.3 Mae gwarediad ar y gweill os yw'n dod o dan reoliad 4(2). Nid yw'r Rheoliadau'n berthnasol:

- i. Os yw Awdurdod Lleol wedi cyhoeddi hysbysiad ynglŷn â chynnig i waredu yn unol ag adran 123(2A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ("Deddf 1972") cyn i'r Rheoliadau ddod i rym; ac
- ii. Os yw'r Awdurdod Lleol yn dod i gytundeb i gael gwared ar y tir, neu'n cwblhau gwarediad y tir, o fewn cyfnod o 12 mis i'r diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad o dan adran 123(2A).

5.4 Mae adran 123(2A) o Ddeddf 1972 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Lleol, cyn cael gwared ar unrhyw dir sy'n cynnwys neu'n ffurfio rhan o fan agored, roi hysbysiad ynglŷn â'i fwriad i wneud hynny am ddwy wythnos yn olynol mewn papur newydd yn yr ardal lle mae'r tir wedi'i leoli ac i ystyried unrhyw wrthwynebiadau a ddaw i law.

5.5 Dyma enghreifftiau o sut y gall y Rheoliadau gael eu cymhwyso i gynigion i waredu a all fod ar y gweill pan fyddant yn dod i rym:

Enghraifft 1

Ym mis Tachwedd 2014, mae Awdurdod Lleol yn bwriadu gwerthu cae chwarae. Mae'n cyhoeddi hysbysiad ym mis

Rhagfyr 2014 yn unol ag adran 123(2A) o Ddeddf 1972 yn amlinellu'r bwriad i werthu. Mae'r Awdurdod Lleol yn ystyried unrhyw sylwadau a dderbynnir ond yn penderfynu cael gwared ar y tir. Mae'r Rheoliadau'n dod i rym ym mis Hydref 2015. Ym mis Tachwedd 2015, mae'r Awdurdod Lleol yn cytuno i'r contract gwerthu ac yn cyfnewid contractau gyda'r prynwr. Mae'r cae chwarae yn cael ei werthu ym mis Chwefror 2016.

Ni fyddai'r Rheoliadau'n berthnasol yn yr achos hwn.

Mae'r Awdurdod Lleol yn dod i gytundeb i gael gwared ar y cae chwarae o fewn 12 mis i gyhoeddi'r hysbysiad o dan adran 123(2A) o Ddeddf 1972. Mae'r ffaith nad yw'r cae chwarae yn cael ei werthu tan fis Chwefror 2016 yn amherthnasol, gan fod rheoliad 4(2)(b) yn nodi nad yw'r Rheoliadau'n berthnasol os yw'r Awdurdod Lleol yn cael gwared ar y tir neu'n dod i gytundeb i gael gwared ar y tir o fewn 12 mis i gyhoeddi hysbysiad o dan adran 123(2A) o Ddeddf 1972.

Enghraifft 2

Ym mis Tachwedd 2014, mae Awdurdod Lleol yn bwriadu gwerthu cae chwarae. Mae'n cyhoeddi hysbysiad ym mis Rhagfyr 2014 yn unol ag adran 123(2A) o Ddeddf 1972 yn amlinellu'r bwriad i werthu. Mae'r Awdurdod Lleol yn ystyried unrhyw sylwadau a dderbynnir ond yn penderfynu cael gwared ar y tir. Mae'r Awdurdod Lleol yn cyfnewid contractau gyda'r prynwr ym mis Mehefin 2015. Mae'r Rheoliadau'n dod i rym ym mis Hydref 2015. Mae'r cae chwarae yn cael ei werthu ym mis Tachwedd 2015.

Ni fyddai'r Rheoliadau'n berthnasol yn yr achos hwn.

Mae'r Awdurdod Lleol yn dod i gytundeb i gael gwared ar y cae chwarae o fewn 12 mis i gyhoeddi'r hysbysiad o dan adran 123(2A) o Ddeddf 1972. Ni fyddai'r Rheoliadau'n berthnasol pe bai'r cae chwarae'n cael ei werthu ym mis Tachwedd 2015.

Enghraifft 3

Ym mis Tachwedd 2014, mae Awdurdod Lleol yn cyhoeddi hysbysiad yn unol ag adran 123(2A) o Ddeddf 1972 yn amlinellu'r bwriad i werthu caeau chwarae. Mae'r Rheoliadau'n

dod i rym ym mis Hydref 2015. Ym mis Chwefror 2016, mae'r Awdurdod Lleol yn bwrw ymlaen tuag at gyfnewid contractau.

Byddai'r Rheoliadau'n berthnasol pan fyddai'r contractau'n cael eu cyfnewid ym mis Chwefror 2016.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi cyhoeddi hysbysiad yn unol â Deddf 1972. Fodd bynnag, mae mwy na 12 mis ers cyhoeddi'r hysbysiad hwnnw ac nid yw'r Awdurdod Lleol wedi dod i gytundeb i gael gwared ar y tir. Yn y senario hwn, byddai'n rhaid i Awdurdod Lleol gydymffurfio â'r gofynion yn y Rheoliadau cyn penderfynu dod i gytundeb i gael gwared ar y tir.

6. Dehongliad

6.1 Mae Rheoliad 2 yn cynnwys y diffiniadau canlynol o dermau:

<i>“Deddf 2013”</i>	Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
<i>“y cyfnod ymgynghori”</i>	Mae'n cyfeirio at y cyfnod a bennir gan Awdurdod Lleol yn unol â 5(2)(c) a (5). Mae Rheoliad 5(2)(c) yn nodi bod rhaid i'r hysbysiad o gynnig i waredu a gyhoeddir gan Awdurdod Lleol o dan reoliad 5(1) hysbysu'r cyhoedd o'u hawl i wneud sylwadau i'r Awdurdod, ac erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid iddynt anfon sylwadau i'r Awdurdod. Mae Rheoliad 5(5) yn nodi bod rhaid i'r dyddiad a nodir gan yr Awdurdod, h.y. y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau, fod o leiaf 6 wythnos ar ôl dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad. Mae'r “cyfnod ymgynghori” yn cyfeirio at y cyfnod rhwng diwrnod cyhoeddi'r hysbysiad a'r dyddiad a nodir gan yr Awdurdod Lleol.
<i>“penderfyniad i waredu”</i>	Lle mae Awdurdod Lleol yn penderfynu dod i gytundeb i gael gwared ar y tir neu, yn absenoldeb cytundeb o'r fath, yn penderfynu cael gwared ar y tir. Bydd hyn yn digwydd ar ôl i'r Awdurdod Lleol gydymffurfio â'r gofynion hysbysu ac ymgynghori yn rheoliadau 5 a 6 ac ystyried unrhyw sylwadau yn unol â rheoliad 7.
<i>“gwaredu”</i>	Rhoi unrhyw ystâd neu fuddiant mewn tir.
<i>“cae chwarae”</i>	Man agored cyfan sy'n cwmpasu o leiaf un maes chwarae.
<i>“maes chwarae”</i>	Ardal sydd wedi'i marcio, gan gynnwys ardaloedd gor-redeg, sydd yn:

- i. 0.2 hectar neu fwy o faint ac sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer chwaraeon, yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i, bêl-droed, pêl-droed Americanaidd, rygbi, criced, hoci, lacρός, rownderi, pêl fas, pêl feddal, pêl-droed Awstralaidd, pêl-droed Gwyddelig, shinti, hyrling, polo, polo beiciau, athletau, neu golff; neu
- ii. 0.1 hectar neu fwy sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gemau bowlio; neu
- iii. 0.04 hectar neu fwy sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer chwarae pêl-fasged, pêl-rwyd neu denis.

“penderfyniad arfaethedig i waredu”

Lle mae Awdurdod Lleol yn ystyried, neu'n bwriadu, gwneud penderfyniad i ddod i gytundeb i gael gwared ar gae chwarae neu, yn absenoldeb cytundeb o'r fath, cael gwared ar gae chwarae. Mae hyn yn ymwneud â'r cyfnod cyn i'r Awdurdod Lleol gydymffurfio â'r gofynion yn rheoliadau 5 a 6. Hynny yw, y cyfnod cynnar pan fo'r Awdurdod Lleol yn ystyried gwerthu tir. Bydd y gofynion hysbysu ac ymgynghori yn rheoliadau 5 a 6 yn berthnasol yn y cyfnod hwn ac maent yn sicrhau bod y gymuned leol wedi cael cyfle i fynegi ei barn ar y cynnig i waredu. Bydd y sylwadau a ddaw i law, ynghyd ag unrhyw faterion perthnasol eraill, yn helpu'r Awdurdod Lleol i benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r gwarediad.

6.2 Dylid nodi nad yw'r diffiniad o faes chwarae wedi'i gyfyngu i dir a neilltuwyd ar gyfer y chwaraeon a ragnodir ar wyneb y rheoliadau. Dylai Awdurdodau Lleol ddefnyddio dehongliad eang wrth ystyried a yw tir a neilltuwyd ar gyfer chwaraeon neu weithgaredd hamdden penodol wedi'i gynnwys yn y Rheoliadau. Os oes unrhyw amheuaeth, dylid rhagdybied o blaid cynnwys y tir o fewn y diffiniad o faes chwarae.

7. Cymhwyso ac Eithriadau

7.1 Gall cae chwarae ddod o dan y diffiniad o gae chwarae yn rheoliad 2, ond efallai na fydd penderfyniad arfaethedig i gael gwared ar gae o reidrwydd yn ddarostyngedig i'r gofynion yn rheoliadau 5 i 10. Mae Rheoliad 3 yn amlinellu'r amgylchiadau lle mae'n **rhaid** i Awdurdod Lleol gydymffurfio â'r gofynion yn rheoliadau 5 i 10. Mae Rheoliad 4 yn nodi lle **na fyddai'r** gofynion yn rheoliadau 5 i 10 yn berthnasol. Mae'r amgylchiadau hyn yn cael eu disgrifio'n fanylach isod.

7.2 Mae Rheoliadau 5 i 10 yn berthnasol mewn perthynas â phenderfyniad arfaethedig i gael gwared ar gae chwarae neu unrhyw ran o gae chwarae. Mae Rheoliad 2 yn diffinio “penderfyniad arfaethedig i waredu” fel yr amlinellir uchod. Mae'r diffiniad yn sicrhau bod Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â'r gofynion hysbysu ac ymgynghori yn rheoliadau 5 i 7 mewn cyfnod cynnar yn y cynnig i waredu. Yna,

bydd rhaid i Awdurdod Lleol sy'n penderfynu cael gwared ar gae chwarae gydymffurfio â rheoliad 8 cyn dod i unrhyw gytundeb i gael gwared ar gae chwarae, megis cyfnewid contractau. Os na fydd unrhyw gytundeb neu contractau'n cael eu cyfnewid cyn i'r cae chwarae gael ei werthu, bydd angen i Awdurdod Lleol gydymffurfio â rheoliad 8 cyn cael gwared ar y cae chwarae. Mae'r diffiniadau o "benderfyniad i waredu" a "phenderfyniad arfaethedig i waredu" yn golygu na fyddai angen dilyn y gofynion yn rheoliadau 5 i 10 cyn cael gwared ar y cae chwarae os yw'r Awdurdod Lleol eisoes wedi cydymffurfio â'r Rheoliadau cyn dod i gytundeb i gael gwared ar gae chwarae.

7.3 Os nad yw'r cae chwarae wedi'i ddefnyddio fel cyfleuster chwaraeon neu hamdden gan y cyhoedd ar unrhyw adeg dros y pum mlynedd cyn i'r Awdurdod Lleol ystyried gwneud penderfyniad i gael gwared ar y tir, mae rheoliad 3(b) yn nodi na fyddai'r gofynion yn rheoliadau 5 i 10 yn berthnasol (noder cymhwysiad adran 123(2A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – gweler paragraff 7.10 isod).

7.4 Mae Rheoliad 4 yn nodi lle nad yw penderfyniad arfaethedig i gael gwared ar gae chwarae yn ddarostyngedig i'r gofynion yn rheoliadau 5 i 10. Mae'r Rheoliadau yn ymwneud yn bennaf â chael gwared ar gae chwarae a fyddai'n peidio â bod yn amwynder cyhoeddus. Gallai fod amgylchiadau pan fydd Awdurdod Lleol yn cynnig ildio perchnogaeth ar gae chwarae, neu ganiatáu buddiant yn y tir, ond ei fod i barhau ar gael at ddefnydd y cyhoedd fel cyfleuster chwaraeon neu hamdden. O ganlyniad, mae Rheoliadau 3(c) a 4(1) yn cyfuno i nodi nad yw'r gofynion yn rheoliadau 5 i 10 yn berthnasol i benderfyniad arfaethedig i waredu:

- i. Os yw'r penderfyniad arfaethedig i waredu yn ymwneud â chaniatáu buddiant yn y cae chwarae nad yw'n effeithio'n niweidiol ar y defnydd o'r cae chwarae fel cyfleuster chwaraeon neu hamdden gan y cyhoedd;
- ii. Os bydd y cae chwarae yn cael ei gadw fel cyfleuster chwaraeon neu hamdden at ddefnydd y cyhoedd, pa un a yw defnydd o'r fath yn amodol ar godi tâl ai peidio, ac os gwneir y gwarediad i:
 - a. Awdurdod Lleol arall; neu
 - b. i gorff y mae ei nodau neu amcanion yn cynnwys hyrwyddo gweithgareddau chwaraeon neu hamdden.

7.5 Mewn perthynas ag a) uchod, mae i'r ymadroddion "caniatáu buddiant" ac "effaith niweidiol" eu hystyron arferol. Er enghraifft, mae "caniatáu buddiant" yn cynnwys caniatáu hawddfreintiau, hawliau a phridiant cyfreithiol ar dir. Er nad yw caniatáu buddiant yn newid perchnogaeth y tir, mae'n bosibl y gallai effeithio ar y defnydd a wneir o'r tir. Bydd "effaith niweidiol" yn deillio o ganiatáu buddiant sy'n effeithio'n anffafriol neu'n niweidiol, neu a allai gael effaith o'r fath, ar allu defnyddwyr y cae chwarae i gymryd rhan yn y gweithgareddau chwaraeon neu hamdden y defnyddiwyd y cae chwarae ar eu cyfer yn ystod y 5 mlynedd flaenorol.

7.6 Yn achos b) uchod, dylid nodi nad oes gofyn cadw'r cae chwarae ar gyfer yn un gweithgaredd chwaraeon neu hamdden ag y'i neilltuwyd ar ei gyfer, neu'r un

gweithgaredd ag y'i neilltuwyd ar ei gyfer yn ystod y pum mlynedd flaenorol, cyn ei waredu.

7.7 Mae rheoliadau 3(c) a 4 hefyd yn cyfuno i nodi na fyddai penderfyniadau arfaethedig i gael gwared ar gaeau chwarae sydd eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad yn ddarostyngedig i'r gofynion yn rheoliadau 5 i 10. Ni fyddai'r gofynion yn berthnasol:

- a) Os yw Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol wedi ymgynghori ar y penderfyniad arfaethedig i waredu o dan adran 48(2) o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013; ac
- b) Os yw Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori ar y penderfyniad arfaethedig i waredu o dan adran 72(1) o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

7.8 Cafodd y Cod Trefniadaeth Ysgolion ei gyhoeddi gan Weinidogion Cymru ym mis Gorffennaf 2013, yn unol â'r gofyniad yn Ndeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Deddf 2013"). Rhaid i gynigion o dan Bennod 2 yn Rhan 3, ac adran 71, o Ddeddf 2013 gael eu cyhoeddi, a bod yn destun ymgynghoriad, yn unol â'r Cod. Mae'r eithriadau uchod yn osgoi'r angen i gynnal dau ymarfer ymgynghori ar wahân wrth gael gwared ar gaeau chwarae ysgol (h.y. o dan y rheoliadau a Deddf 2013).

7.9 Er gwaethaf yr uchod, yn achos newid perthnasol yn y cynigion neu yn y defnydd o'r tir ers ymgynghori o dan Ddeddf 2013, dylai'r Awdurdod Lleol ystyried a yw ymgynghoriad pellach ar gael gwared ar gae chwarae ysgol yn briodol. Byddai angen i ymgynghoriad pellach o'r fath gael ei gynnal yn unol â'r Rheoliadau. Fodd bynnag, os oedd yr Awdurdod Lleol wedi ymgynghori ar y gwarediad fel rhan o gynigion trefniadaeth ysgolion a bod unrhyw oedi wedi digwydd o ganlyniad i drafodaethau cymhleth, problemau gyda'r tir neu ffactorau eraill nad oeddent wedi gwneud newid perthnasol i natur y cynigion, efallai na fydd angen cynnal ymgynghoriad pellach, ond dylai Awdurdodau Lleol ystyried amgylchiadau pob achos yn unigol.

7.10 Mae penderfyniad arfaethedig i waredu nad yw'n ddarostyngedig i'r gofynion yn rheoliadau 5 i 10 yn rhinwedd y ffaith ei fod yn perthyn i amodau rheoliadau 4(1)(a) i (d) er hynny'n ddarostyngedig i ofynion hysbysu adran 123(2A) o Ddeddf 1972, os yw'r tir dan sylw yn perthyn i'r diffiniad o dir mewn 'man agored'⁶.

8. Trefniadau Hysbysu ac Ymgynghori

8.1 Mae Rheoliad 5 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Lleol wneud y canlynol cyn gwneud penderfyniad i gael gwared ar gae chwarae, neu unrhyw ran o gae chwarae:

- i. Cyhoeddi hysbysiad am ddwy wythnos yn olynol mewn o leiaf un papur newydd yn ardal yr Awdurdod, sy'n:

⁶ "Any land laid out as a public garden, or used for the purposes of public recreation, or land which is a disused burial ground" – adran 336(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

- a) Datgan bod yr Awdurdod Lleol yn cynnig cael gwared ar gae chwarae;
 - b) Rhoi gwybod i'r cyhoedd ymhle neu ym mha leoedd ac ar ba adegau y gellir gweld manylion y cynnig i waredu ac am ba hyd y bydd hi'n bosibl gwneud hynny. Rhaid i Awdurdod Lleol wneud hynny am o leiaf 6 wythnos wedi dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad am y tro cyntaf mewn papur newydd; a
 - c) Rhoi gwybod i'r cyhoedd am eu hawl i gyflwyno sylwadau, sut i wneud hynny a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r sylwadau. Rhaid i'r Awdurdod Lleol nodi dyddiad o leiaf 6 wythnos wedi dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad am y tro cyntaf.
- ii. Sicrhau bod manylion y cynnig i waredu ar gael i'w gweld yn ystod oriau swyddfa arferol ym mhrif swyddfa'r Awdurdod (os oes un ganddo) ac os yw'n rhesymol ymarferol, mewn un neu fwy o fannau eraill yn ei ardal.
- iii. Heb fod yn ddiweddarach na'r diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad am y tro cyntaf:
- a) Arddangos copi mewn o leiaf un man ar, neu yn ymyl y cae chwarae y cynigir ei waredu ac, ym mhob achos, wrth bob mynediad swyddogol i'r cae chwarae, am o leiaf 6 wythnos;
 - b) Gosod copi ar ei wefan (os oes un ganddo) am o leiaf 6 wythnos; ac
 - c) Anfon copi o'r hysbysiad at unrhyw berchennog neu feddiannydd tir sy'n cyd-ffinio â'r cae chwarae.
- iv. Heb fod yn ddiweddarach na'r diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad am y tro cyntaf, anfon copi o'r hysbysiad **ynghyd â** manylion y cynnig i waredu i:
- a) Unrhyw Awdurdod Lleol y mae ei ardal yn cynnwys unrhyw ran o'r cae chwarae y cynigir ei waredu neu sy'n rhannu ffin ag unrhyw ran ohono;
 - b) Cyngor Chwaraeon Cymru;
 - c) Cymdeithas Genedlaethol y Caeau Chwarae (Meysydd Chwarae Cymru ar hyn o bryd);
 - d) Unigolion y mae'r Awdurdod Lleol yn ystyried eu bod yn cynrychioli buddiannau unigolion neu gyrff yn ardal yr Awdurdod, neu Awdurdod sy'n rhannu ffin ag unrhyw ran o'r cae chwarae, ac sy'n gwneud defnydd o'r cae chwarae;
 - e) Unrhyw gorff sy'n ceisio gwarchod manau agored a chyfluoedd chwarae. Mae hyn wedi'i gyfyngu i'r gyrff hynny

sy'n gweithredu ar lefel genedlaethol, h.y. ledled Cymru (gweler paragraff 8.7 isod); ac

- f) Unigolion eraill y mae'r Awdurdod yn eu hystyried yn briodol.
- v. Darparu copi o fanylion y cynnig i waredu i unrhyw unigolyn sy'n gofyn am gael gweld y manylion hynny yn ystod y cyfnod ymgynghori. Gall Awdurdod Lleol ofyn am dâl rhesymol am anfon manylion y cynnig i waredu o dan reoliad 5(7), neu gall ddarparu'r manylion am ddim.

Ymgynghori

8.2 Mae'r Rheoliadau yn gosod y gofynion sylfaenol ar gyfer ymgynghori sy'n ddisgwyliedig gan Awdurdod Lleol sy'n cynnig cael gwared ar gae chwarae. Cyfres gyffredinol o egwyddorion ar gyfer sefydliadau ar draws y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yw Egwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru, a ddatblygwyd gan Cyfranogaeth Cymru. Eu nod yw cynnig cysondeb o ran y dull o weithredu a safonau uchel ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru. Cefnogir yr Egwyddorion gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Llais Cymru a Llywodraeth Cymru. Dylai awdurdodau lleol ystyried yr egwyddorion wrth ymgynghori ar gynnig i gael gwared ar gae chwarae. Mae'r Egwyddorion i'w gweld ar wefan Cyfranogaeth Cymru:

<http://www.participationcymru.org.uk/principles>

Amseru'r Ymgynghoriad

8.3 Fel yr amlinellir yn adran 7, rhaid i'r ymgynghoriad gael ei gynnal cyn gwneud penderfyniad i gael gwared ar gae chwarae, h.y. pan fo'r Awdurdod Lleol yn *cynnig* gwaredu.

8.4 Os bydd gwarediad yn cynnwys proses dau gam, er enghraifft, cyfnewid contractau a chwblhau'r gwarediad, rhaid cydymffurfio â'r gofynion yn rheoliadau 5 i 10 cyn gwneud penderfyniad i ddod i gytundeb, h.y. trwy gyfnewid contractau.

Cyfnod Ymgynghori

8.5 Mae'r Rheoliadau yn pennu y dylai cyfnod ymgynghori bara am o leiaf 6 wythnos. Fodd bynnag, bydd angen i'r Awdurdod Lleol ystyried yn ofalus a yw'r cyfnod sylfaenol yn ddigon hir yng nghyd-destun graddau a natur y cynnig i waredu.

8.6 Er y gallai 6 wythnos fod yn ddigon ar gyfer cynigion i waredu gweddol fach, nad ydynt yn ddadleuol iawn, mae'n debygol y bydd angen cyfnod ymgynghori hwy ar gyfer cynigion mwy sylweddol i waredu neu gynigion a allai fod yn ddadleuol. Gallai hyn fod yn wir hefyd pan fo ymgynghoriad yn mynd y tu hwnt i ofynion sylfaenol y Rheoliadau ac yn cynnwys amrediad eang o ddulliau ymgysylltu, er enghraifft cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd â chynrychiolwyr defnyddwyr a chyrrff eraill. Hefyd, gallai cyfnod ymgynghori hwy fod yn briodol yn ystod cyfnodau gwyliau cydnabyddedig.

Unigolion i ymgynghori â nhw

8.7 Mae'r Rheoliadau yn pennu pa unigolion y mae'n rhaid ymgynghori â nhw ynglŷn â chynnig i gael gwared ar gae chwarae. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o sefydliadau cenedlaethol y barna Llywodraeth Cymru fod ganddynt ddi-ddordeb uniongyrchol yn y ddarpariaeth o fannau agored ar gyfer chwaraeon a hamdden yng Nghymru, h.y. Cyngor Chwaraeon Cymru, Cymdeithas Genedlaethol y Caeau Chwarae (Meysydd Chwarae Cymru ar hyn o bryd). Mae'r Rheoliadau hefyd yn cyfeirio at gyrff cenedlaethol y mae eu prif amcanion yn cynnwys gwarchod mannau agored yng Nghymru a gwarchod cyfleoedd chwarae i blant Cymru. Dylid ystyried bod gyrff cenedlaethol o'r fath yn cynnwys y Gymdeithas Mannau Agored a Chwarae Cymru, neu unrhyw gorff olynol sydd ag amcanion tebyg.

8.8 Yn ogystal â'r gyrff cenedlaethol hyn, rhaid i'r Awdurdod Lleol ymgynghori ag unigolion neu gyrff eraill y barna sy'n cynrychioli buddiannau unigolion neu gyrff yn ardal yr Awdurdod, neu yn ardal Awdurdod sy'n rhannu ffin ag unrhyw ran o'r cae chwarae, ac sy'n gwneud defnydd o'r cae chwarae. Golyga hyn, er enghraifft, y byddai'n rhaid i Awdurdod ymgynghori â chynrychiolwyr timau chwaraeon lleol sy'n chwarae ar y cae chwarae, ond ni fyddai gofyn iddynt ymgynghori â chynrychiolwyr timau sy'n teithio o'r tu allan i'r ardal ei hun, neu ardal gyffiniol. Fodd bynnag, i gydymffurfio â disgresiwn ehangach Awdurdod i ymgynghori ag unigolion neu gyrff eraill yr ystyria'n briodol, gallai fod amgylchiadau lle byddai'n ddefnyddiol neu'n briodol ymgynghori â chynrychiolwyr defnyddwyr sy'n deillio o ardal y tu hwnt i ardal yr Awdurdod lleol ei hun neu Awdurdod cyffiniol.

8.9 O ystyried yr amrediad o chwaraeon a gweithgareddau hamdden a allai gael eu heffeithio, nid yw'n bosibl i'r canllawiau ymdrin yn gynhwysfawr â sut yn union y dylai Awdurdod Lleol arfer ei ddisgresiwn ar gyfer pennu pa unigolion neu gyrff y dylid ymgynghori â nhw. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau i arfer eu disgresiwn yn eang er mwyn ymgysylltu ag ystod eang o unigolion neu gyrff â buddiant posibl. Yn y ffordd hon, bydd yr Awdurdod yn elwa drwy werthfawrogi barn trawstoriad eang o'r gymuned, cyn dod i benderfyniad terfynol ar warediad posibl.

Gwybodaeth i'w rhoi i Ymgynghoreion

8.10 Nid yw'r Rheoliadau yn pennu union natur y manylion y dylid eu hanfon at ymgynghoreion. Bydd hyn yn galluogi Awdurdod i deilwra'r wybodaeth a ddarperir yn ôl graddau a natur y cynnig i waredu.

8.11 Os yw ymgynghoreion yn mynd i ymateb yn effeithiol, bydd angen digon o wybodaeth arnynt i'w galluogi i gael dealltwriaeth dda o'r rhesymeg sy'n sail i'r cynnig i waredu ac unrhyw ddefnydd arfaethedig ar y safle yn y dyfodol. Fodd bynnag, dylai manylion y cynnig i waredu gynnwys gwybodaeth am yr effaith y byddai cynnig i gael gwared ar gae chwarae yn ei chael ar unrhyw strategaethau, cynlluniau neu asesiadau perthnasol (gweler rheoliad 6 ac adran 9 yn y canllawiau hyn).

8.12 Ni cheir gofyniad i anfon gwybodaeth at unigolion nad oes gofyn i Awdurdod roi mwy na hysbysiad ffurfiol iddynt fod y cynigion ar gael i'r cyhoedd eu gweld. Mae hawl gan unigolion o'r fath i ofyn am gopi o'r cynigion, a gellir codi tâl

rhesymol arnynt amdano, yn ôl disgrisiwn yr Awdurdod. Dylai Awdurdod ystyried yn ofalus a yw'n briodol codi tâl am ddarparu manylion i unigolion eraill.

8.13 Efallai nad prif swyddfa Awdurdod fydd y lleoliad mwyaf hygyrch bob amser i aelodau'r gymuned lle lleolir cae chwarae'r cynnig i waredu. Yn aml iawn, nid oes gan gyngor cymuned brif swyddfa. O ganlyniad, mae'r Rheoliadau yn rhagweld y bydd cynigion Awdurdod ar gael i'r cyhoedd eu gweld mewn lleoliadau yn ychwanegol at ei brif swyddfa. Lle bo'n ymarferol, dylai cynigion Awdurdod fod ar gael i'w gweld mewn lleoliad neu leoliadau sy'n rhesymol agos i'r ardal lle lleolir y cae chwarae. Gallai lleoliadau addas gynnwys swyddfa leol yr Awdurdod, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, neuaddau cymuned neu adeiladu cymunedol cyffelyb.

9. Asesu Effaith

9.1 Mae Rheoliad 46(1) yn darparu y dylai manylion y cynnig i waredu fod ar gael i'w harchwilio a chael eu hanfon at ymgylgoreion neu unigolion eraill o dan reoliad 5, ac y dylai gynnwys gwybodaeth ynglŷn ag effaith cynnig i waredu ar y strategaethau, cynlluniau ac asesiadau canlynol ar gyfer yr ardal:

- a) Cynllun Datblygu Lleol - sy'n ofynnol o dan adran 62 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004;
- b) Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae – sy'n ofynnol o dan adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010;
- c) Strategaeth Gymunedol – sy'n ofynnol o dan adran 39 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009;
- d) Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles – sy'n ofynnol o dan adran 40 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;
- e) Arall – strategaethau, cynlluniau ac asesiadau eraill yr ystyria'r Awdurdod Lleol eu bod yn briodol.

9.2 Dylai'r asesiad ystyried sut y byddai'r cynnig i waredu yn effeithio ar gyflawni'r deilliannau yn y strategaethau, y cynlluniau a'r asesiadau uchod ar gyfer yr ardal.

9.3 Ar hyn o bryd, mae'r Strategaeth Gymunedol, y Strategaeth Iechyd a Lles a'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn rhan o'r Cynllun Integredig anstatudol⁷ ar gyfer ardal y Prif Awdurdod. Y Cynllun Integredig Sengl yw'r system ar gyfer cynllunio a chyflawni camau gweithredu ar flaenoriaethau lleol, ac i fonitro a gwerthuso canlyniadau, yn seiliedig ar asesiad o anghenion lleol. Caiff camau i ddatblygu, monitro a chraffu ar y Cynllun Integredig Sengl eu cydgysylltu gan y Bwrdd Gwasanaeth Lleol, gan ddwyn ynghyd arweinwyr o lywodraeth leol, y GIG, yr heddlu, y trydydd sector a Llywodraeth Cymru.

⁷ 'Cydamcanu – Cydymdrechu, Canllawiau ar integreiddio Partneriaethau a Chynlluniau'

9.4 Ar 29 Ebrill 2015, daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i rym. Mae'r Ddeddf yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn ei gwneud yn ofynnol iddynt baratoi a chyhoeddi "cynllun llesiant lleol". Bydd y cynlluniau hyn yn disodli'r Strategaethau Cymunedol sy'n ofynnol o dan Ran 2 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) a'r strategaethau iechyd a llesiant sy'n ofynnol o dan adran 40 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ar ôl i'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r cynllun llesiant lleol ddod i rym gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn cychwyn. Caiff y Rheoliadau a'r canllawiau hyn eu diwygio, fel y bo'n briodol, ar yr adeg berthnasol i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

9.5 Nid yw'r Rheoliadau yn pennu graddau a natur yr asesiad sydd angen i Awdurdod ei gynnal er mwyn gallu cyhoeddi gwybodaeth ar effaith cynnig i waredu. Dylai'r asesiad fod yn gymesur â natur a graddau'r cynnig i waredu. Rhagwelir mai ymarfer desg fydd yr asesiad fel arfer, wedi'i gynnal yn fewnol gan swyddogion yr Awdurdod.

9.6 Mae Polisi Cynllunio Cymru⁸ yn datgan y dylai Cynlluniau Datblygu gynnwys polisiâu eglur ar gyfer darparu, diogelu a gwella cyfleusterau twristiaeth, chwaraeon a hamdden. Dylent osod safonau ar gyfer y ddarpariaeth fel bod modd nodi diffygion lleol a'u hunioni drwy'r broses gynllunio. Dylent hefyd nodi polisiâu ar osgoi neu ddatrys unrhyw wrthdaro rhwng gwahanol weithgareddau. Dylai cynlluniau datblygu ddiogelu caeau chwarae a mannau agored sy'n werthfawr i gymunedau lleol o ran amwynder neu hamdden rhag cael eu datblygu.

9.7 Mae canllawiau atodol yn TAN 16 yn cyngori awdurdodau i ystyried cyflawni Asesiadau o Fannau Agored i lywio'r gwaith o baratoi, monitro ac adolygu polisiâu'r Cynllun Datblygu. Mae TAN 16 yn nodi ymhellach y gallai asesiad o'r fath fod yn ddefnyddiol hefyd ar gyfer paratoi Strategaethau Mannau Agored corfforaethol a Strategaethau Cymunedol lle gellir mynd i'r afael â materion amgylcheddol, cymdeithasol ac iechyd ehangach.

9.8 Er nad yw paratoi Asesiad o Fannau Agored yn orfodol ynddo'i hun, wrth gyflawni eu rhwymedigaethau o dan Bolisi Cynllunio Cymru, bydd awdurdodau cynllunio wedi datblygu dealltwriaeth dda o lefel y ddarpariaeth o gaeau chwarae ac anghenion eu cymunedau hyd y gellir eu rhagweld o fewn terfynau'r Cynllun Datblygu.

9.9 Yn sail i Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yr ardal, ceir asesiad o anghenion iechyd, gofal cymdeithasol a lles y gymuned nas diwallwyd, yn cynnwys gwybodaeth am yr amgylchedd ffisegol.

9.10 Bydd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn rhoi asesiad llawn o'r cyfleoedd chwarae yn ardal y Prif Awdurdod, yn cynnwys rhai sy'n codi o'r ddarpariaeth o gaeau chwarae.

9.11 O ganlyniad, dylai fod fframwaith polisi strategol eglur a chynhwysfawr ar gael yn barod ar gyfer asesu effaith benodol unrhyw warediad ar iechyd a lles y gymuned. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni ddylai hyn hepgor yr angen am astudiaeth bellach fanwl.

⁸ Pennod 11 – Twristiaeth, Chwaraeon a Hamdden

9.12 Yn rhinwedd rheoliad 9, gall y wybodaeth sy'n ofynnol o dan reoliad 6 gael ei hanfon yn electronig os oes gan yr ymgynghorai gyfeiriad ar gyfer ymgynghoriad electronig.

10. Ystyried Sylwadau

10.1 Mae Rheoliad 7 yn darparu y dylai Awdurdod Lleol ystyried yr holl sylwadau a ddaw i law mewn perthynas â chynnig i waredu yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud hi'n eglur y gall yr Awdurdod ystyried unrhyw sylwadau a ddaw i law ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben.

10.2 Ni ddylai Awdurdod ddiystyru sylwadau a ddaw i law wedi'r cyfnod ymgynghori yn syml am ei bod hi'n gyfleus iddo wneud hynny. Fodd bynnag, fe ddaw pwynt pan fydd proses yr Awdurdod ar gyfer dod i benderfyniad wedi cyrraedd y cam lle bydd yn anymarferol iddo ystyried rhagor o sylwadau sy'n cyrraedd yn hwyr. Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried a fyddai'n briodol i gofnodi'r rheswm dros ddiystyru unrhyw sylwadau a gyflwynwyd a rhoi gwybod i'r sawl a'u hanfonodd.

11. Penderfyniad yn dilyn Ymgynghori

11.1 Ar ôl ystyried unrhyw sylwadau a ddaeth i law, mae Rheoliad 8 yn darparu y dylai Awdurdod Lleol baratoi adroddiad ("yr Adroddiad ar y Penderfyniad") yn crynhoi'r sylwadau hynny a'r rhesymau dros ei benderfyniad i gael gwared ar y cae chwarae ai peidio.

11.2 Os bydd gwarediad yn cynnwys proses dau gam, h.y. cytundeb cychwynnol a chwblhau'r gwarediad, rhaid i Awdurdod Lleol gydymffurfio â rheoliad 8 cyn dod i gytundeb i gael gwared ar gae chwarae.

11.3 Nid yw'r Rheoliadau yn pennu cynnwys manwl yr Adroddiad ar y Penderfyniad. Fodd bynnag, dylai'r adroddiad roi digon o fanylder i alluogi unigolyn neu gorff i gael dealltwriaeth deg a rhesymol o'r canlynol:

- natur a nifer y sylwadau a ddaeth i law ac a ystyriwyd gan yr Awdurdod;
- natur a nifer unrhyw sylwadau a ddaeth i law wedi'r cyfnod ymgynghori na chafodd eu hystyried gan yr Awdurdod a'i resymau dros beidio â'u hystyried; a'r
- rhesymeg dros benderfyniad yr Awdurdod i fwrw ymlaen, neu i beidio â bwrw ymlaen, â'r gwarediad.

Penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen

11.4 Os yw Awdurdod Lleol, yng ngoleuni sylwadau a ddaeth i law, neu ffactorau eraill, yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen â phenderfyniad i waredu, cyn gynted

ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl gwneud y penderfyniad, rhaid iddo anfon copi o'r Adroddiad ar y Penderfyniad at unrhyw unigolyn y mae wedi derbyn sylwadau o sylwedd ganddynt (gweler paragraff 11.6 isod), ac a ystyriwyd ganddo yn ei benderfyniad.

Penderfyniad i fwrw ymlaen

11.5 Os yw Awdurdod yn penderfynu bwrw ymlaen â phenderfyniad i waredu, cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl ar ôl dod i benderfyniad, rhaid iddo:

- i. Gyhoeddi hysbysiad am ddwy wythnos yn olynol mewn o leiaf un papur newydd yn ei ardal, yn rhoi gwybod i'r cyhoedd:
 - a) am benderfyniad yr Awdurdod i gael gwared ar y cae chwarae;
a
 - b) rhoi gwybod i'r cyhoedd ymhle neu ym mha leoedd ac ar ba adegau y gellir gweld yr Adroddiad ar y Penderfyniad ac am ba hyd y bydd hi'n bosibl gwneud hynny. Rhaid gwneud hynny am o leiaf 6 wythnos wedi dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad am y tro cyntaf mewn papur newydd;
- ii. Sicrhau bod yr Adroddiad ar y Penderfyniad ar gael i'w weld yn ystod oriau swyddfa arferol ym mhrif swyddfa'r Awdurdod (os oes un ganddo) ac os yw'n rhesymol ymarferol, mewn un neu fwy o fannau eraill yn ei ardal.
- iii. Heb fod yn ddiweddarach na'r diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad am y tro cyntaf:
 - a) Arddangos copi mewn o leiaf un man ar, neu yn ymyl y cae chwarae y cynigir ei waredu ac, ym mhob achos, wrth bob mynediad swyddogol i'r cae chwarae, am o leiaf 6 wythnos;
 - b) Gosod copi ar ei wefan (os oes un ganddo) am o leiaf 6 wythnos; ac
 - c) Anfon copi o'r hysbysiad a'r Adroddiad ar y Penderfyniad at unrhyw unigolyn y mae'r Awdurdod wedi derbyn sylwadau o sylwedd ganddynt ar y cynnig i waredu, ac y mae wedi'u hystyried yn unol â rheoliad 6.
- iv. Darparu copi o'r Adroddiad ar y Penderfyniad i unrhyw unigolyn neu gorff arall sy'n gofyn am gopi. Gall yr Awdurdod Lleol ddarparu copi am ddim neu am dâl rhesymol yn ôl disgrisiwn yr Awdurdod.

11.6 Dylai ymateb gan unigolyn neu sefydliad gael ei ystyried yn ymateb gwirioneddol. Os daw sylwadau i law ar ffurf deiseb wedi'i llofnodi, gallai fod yn anymarferol i Awdurdod anfon copi o'r Adroddiad ar y Penderfyniad i bob un o'r llofnodwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod hi'n ddigon i'r Adroddiad ar

y Penderfyniad gael ei anfon at drefnydd y ddeiseb, os yw ei fanylion cyswllt yn hysbys, neu'n hawdd i'w canfod, yn hytrach nag at bob un o'r llofnodwyr.

11.7 O dan Reoliad 8(8), ni chaiff Awdurdod fwrw ymlaen â chynnig i waredu nes y bydd cyfnod o 12 wythnos wedi mynd heibio o'r diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad am y tro cyntaf. Diben hyn yw rhoi cyfnod rhesymol o amser i wrthwynebydd allu rhoi camau ar waith i herio penderfyniad yr Awdurdod, boed yn gamau cyfreithiol neu fel arall.

12. Cyfathrebu Electronig

12.1 Mae Rheoliad 9 yn darparu ar gyfer cyfathrebu'n electronig â phartïon â buddiant. Os oes gofyn i Awdurdod Lleol anfon dogfen neu roi hysbysiad ac ati i Awdurdod Lleol arall neu unigolyn arall â chyfeiriad ar gyfer cyfathrebu electronig, gall wneud hynny drwy gyfathrebu'n electronig.

12.2 Yn yr un modd, gall unigolyn a allai fod eisiau cyflwyno sylwadau i Awdurdod Lleol o dan y Rheoliadau wneud hynny drwy gyfathrebu'n electronig â'r cyfeiriad a ddarperir gan yr Awdurdod at y diben hwn.

12.3 Ystyrir bod cyfathrebiad electronig sy'n cyrraedd y tu allan i oriau swyddfa arferol y sawl sy'n ei dderbyn wedi dod i law ar y diwrnod gwaith dilynol. Nid yw "diwrnod gwaith" yn cynnwys dydd Sadwrn, dydd Sul, Noswyl Nadolig, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Grogllith, gŵyl banc nac unrhyw ddiwrnod a ddynodir yn ddiwrnod o ddiolchgarwch neu alar cyhoeddus.

12.4 Diffinnir "gŵyl banc" fel unrhyw ddiwrnod a ddynodir felly o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971. Gallai hyn olygu bod y diwrnod wedi'i ddynodi o dan Atodlen 1 i'r Ddeddf neu drwy gyhoeddiad brenhinol o dan y Ddeddf honno (er enghraifft, Gŵyl Banc Calan Mai ddechrau mis Mai). Mae Atodlen 1 i'r Ddeddf honno'n rhestru'r canlynol fel gwyliau banc yng Nghymru a Lloegr:

- Dydd Llun y Pasg;
- Y dydd Llun olaf ym mis Mai;
- Y dydd Llun olaf ym mis Awst;
- 26 Rhagfyr (os nad yw'n ddydd Sul); a
- 27 Rhagfyr (mewn blwyddyn pan fo 25 neu 26 Rhagfyr ar ddydd Sul).

12.5 Diffinnir cyfathrebu electronig yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebu Electronig 2000 fel cyfathrebu a drosglwyddir (boed hynny o un unigolyn i'r llall, o un ddyfais i'r llall neu o unigolyn i ddyfais neu fel arall) –

- a) trwy rwydwaith cyfathrebu electronig; neu
- b) drwy ddull arall ar ffurf electronig.

13. Cymhwyso'r Canllawiau

13.1 Mae Rheoliad 10 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Lleol ystyried y canllawiau hyn wrth ystyried y posibilrwydd o wneud cynnig i gael gwared ar gae chwarae.

14. Ymholiadau

14.1 Dylid anfon ymholiadau ynglŷn â'r canllawiau hyn at:

Tîm Democratiaeth Llywodraeth Leol
Adran Llywodraeth Leol
Llawr Cyntaf, Adain y Gogledd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhif ffôn: 029 2082 3366 / 029 2082 6414
E-bost: CustomerHelp@Wales.GSI.Gov.UK